

Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

Y Cynghorydd R M Stirman

Ward:Llangeinwyr

Plaid: Annibynnol

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben **30 Ebrill 2018**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Llangeinwyr ar 4 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 116 o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy [rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau](#) drwy ddilyn y ddolen hon.

Gweithgarwch Etholaeth

Rwy'n llywodraethwr ysgol rhagweithiol yn ysgolion cynradd Tynyrheol a Betws. Rwy'n mynd i gymaint o gyfarfodydd â phosibl o grŵp ward Llangeinwyr lle rwy'n rhoi diweddariadau misol ar fy rôl yn y gymuned ac yn y cyngor.

Rwy'n mynd i'r rhan fwyaf o gyfarfodydd PACT ac yn cysylltu ag aelodau uwch o SWP.

Rwyf hefyd yn aelod gweithredol o Gyngor Cymuned Cwm Garw ac yn ynddo rwy'n hyrwyddo eitemau sy'n benodol i Langeinwyr fel cynllun chwarae'r haf a'r goleuadau Nadolig.

Rwyf wedi bod yn ymgynghori â CBSP ynghylch darparu pwyntiau gwefru ceir trydan ar ran etholwyr a'u hannog i ddatblygu polisi ar gyfer y dyfodol.

Bu llawer o broblemau dros y gaeaf gyda draeniau wedi gorlifo a thyllau yn y ffordd ac rwyf wedi ceisio sicrhau bod yr holl faterion o'r fath yn cael eu datrys yn brydlon.

Mae ailgylchu a gwastraff wedi bod yn fater amlwg arall drwy gydol y flwyddyn er bod y

problemau'n lleihau yn sgil y tywydd gwell.

Gyda dyfodiad yr haf rwy'n disgwyl y problemau arferol gyda gwrychoedd sy'n tyfu'n wyllt, manau glaswelltog, borderi ac ati ac rwyf eisoes yn gweithio i liniaru'r problemau.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Mae gennyf ddiddordeb arbennig mewn cynnal llwybrau troed, llwybrau ceffylau a manau agored eraill yn y pentref ac rwyf ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r grwpiau marchogaeth a cherdded eraill i restru llwybrau troed/llwybrau ceffylau, gobeithio er mwyn eu cadw yn y parth cyhoeddus.

Rwyf hefyd yn bryderus ynghylch cadw'r llwybr cymunedol yn weithredol ac rwy'n cysylltu â rheilffordd Cwm Garw, Sustrans, Reach, CBSP a Chyfoeth Naturiol Cymru i hyrwyddo cyfranogiad lleol gyda'r gwaith o gynnal a chadw'r llwybr a'r defnydd ohono.

Gweithgareddau/Materion Eraill

Fel un sy'n hoff iawn o gerdded cŵn rwyf wedi bod yn rhagweithiol wrth ddarparu a chynnal pwyntiau gwaredu bagiau ysgarthion cŵn a biniau ychwanegol. Rwyf i'n bersonol yn cynnal tri phwynt gwaredu bagiau cŵn, gan sicrhau bod bagiau ar gael.

Rwyf wedi dyrannu rhywfaint o'r Gronfa Gweithredu yn y Gymuned i ysgol Tynyrheol i helpu gyda darparu meinciau newydd, plannu ac eitemau eraill ar gyfer yr ystafell ddosbarth yn yr awyr agored.

Yn ystod gwyliau'r haf rwy'n gwirfoddoli yng Nghanolfan Ymwelwyr Calon Lan.

Y Cyngorydd R M Stirman

Dyddiad: 22.05.2018